# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD GWENER 10 CHWEFROR 2017 AM 10.00AM

**YN BRESENNOL:** Bu'r cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | A C S Colburn | A M Cook |
| J P Curtice | P Downing | V M Evans |
| K E Marsh | H M Morris | C L Philpott |
| T H Rees | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| B Gilbert | Uwch-swyddog Trafnidiaeth |
| R Jones | Swyddog Cludiant Ysgol |
| R Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Y Lewis | Uwch-swyddog Trwyddedu |
| L Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: P Lloyd

### 78 DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd C Anderson – Personol a Rhagfarnol – Cofnod rhif 82 - Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn cadeiriau olwyn - Cais am dystysgrif eithrio - WCS - Rwy'n adnabod y person. Gadawodd y Cynghorydd C Anderson y cyfarfod cyn ystyried yr eitem hon.

Y Cynghorydd C Anderson – Personol a Rhagfarnol – Cofnod rhif 84 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Gyrrwr Bathodyn Deuol - DJM - Rwy'n adnabod y person. Gadawodd y Cynghorydd C Anderson y cyfarfod cyn ystyried yr eitem hon.

Y Cynghorydd V M Evans – Personol a Rhagfarnol – Cofnod rhif 84 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Gyrrwr Bathodyn Deuol - DJM - Rwy'n ymwybodol o'r ymgeisydd. Gadawodd y Cynghorydd V M Evans y cyfarfod cyn ystyried yr eitem hon.

79 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2017 yn gofnod cywir.

80 **GWAHARDD Y CYHOEDD**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

81 **APÊL YN ERBYN PENDERFYNIAD I BEIDIO Â CHYMERADWYO GYRRWR AR GYFER CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL - MJW**

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trafnidiaeth y manylion cefndir o ran achos MJW ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Esboniodd MJW amgylchiadau'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD GWRTHOD** apêl MJW.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Ystyriodd y pwyllgor fesur 2008 o ran y gofyniad i ddarparu trefniadau cludiant addas.

Nododd y pwyllgor e-bost MJW ond gallai ymdrin ag ef ar rinweddau ei apêl yn unig ac ni allai ystyried amgylchiadau'r bobl eraill.

Nid ymhelaethodd MJW ar gollfarnau 2013 i liniaru.

Roedd patrwm clir o droseddu ac aildroseddu ar ôl 3/4 blynedd. Dim ond 3 blynedd a 6 mis ers y drosedd ddiwethaf ac mae'r patrwm yn dangos aildroseddu ar ôl 4 blynedd. Penderfynodd y pwyllgor i beidio â rhoi canllawiau ar waith a cheisio cyfnod

hwy o ddim troseddu na 3 blynedd i sicrhau na fydd MJW yn aildroseddu yn y dyfodol.

Nododd MJW hefyd mai am 3 blynedd yn unig mae wedi ymwrthod ag alcohol ac felly roedd y pwyllgor am weld cyfnod hwy i fod yn sicr y byddai'n bodloni'r meini prawf gofynnol.

Gallai'r gymeradwyaeth a geisiwyd roi MJW mewn amgylchiadau anodd ac, er y nodwyd bod MJW wedi dilyn cwrs rheoli dicter, nid oedd y pwyllgor yn fodlon ar ôl clywed y manylion y byddai MJW yn gallu ymdopi â phroblemau yn briodol er y nodwyd bod MJW yn gyrru i Ben-y-bont ar Ogwr heb unrhyw broblemau, yn ôl MJW.

## 82 DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 - TEITHWYR MEWN CADEIRIAU OLWYN - CAIS AM DYSTYSGRIF EITHRIO - WCS

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y manylion cefndir o ran achos WCS ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Amlinellodd WCS amgylchiadau'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD CYMERADWYO** cais WCS.

## 83 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS I GANIATÁU TRWYDDED YRRU GYFYNGEDIG AR GYFER CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - HF

Ni ddaeth HF i'r cyfarfod a phenderfynodd y pwyllgor ymdrin â'r achos yn ei absenoldeb.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y manylion cefndir o ran achos HF ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

1. Y dylid ymdrin â'r mater yn absenoldeb HF;
2. **CYMERADWYO** cais HF am drwydded yrru gyfyngedig ar gyfer cerbyd hacni a hurio preifat, **yn amodol ar gyflwyno rhybudd ysgrifenedig o ran y safonau a ddisgwylir gan yrwyr trwyddedig.**

## 84 DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - GYRRWR BATHODYN DEUOL - DJM

Hysbysodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y pwyllgor fod DJM wedi ysgrifennu llythyr yn nodi nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod a chynigiodd resymau lliniaru i'r aelodau eu hystyried.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y manylion cefndir o ran achos DJM ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

1. Y dylid ymdrin â'r mater yn absenoldeb DJM;
2. **GWRTHOD** cais DJM i adnewyddu ei drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat **o dan Adran 61 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976;**
3. Na ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach o ran y cerbydau hurio preifat cyfyngedig, y cerbydau hacni a'r cerbydau hurio preifat sydd gan DJM.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Teimlai'r pwyllgor fod DJM wedi meddu ar drwydded gyda'r awdurdod am beth amser ac felly dylai wybod yr amodau a'r is-ddeddfau sy'n berthnasol. Hefyd, ym mis Ionawr 2016, derbyniodd DJM lythyr rhybudd o ran ei fethiant i roi gwybod i'r awdurdod am ei gollfarnau ym mis Mehefin, mis Gorffennaf a mis Awst. Er i DJM dderbyn y llythyr rhybudd hwnnw, methodd roi gwybod i'r awdurdod am ei gollfarn ym mis Mawrth 2016 a oedd yn dangos difaterwch llwyr ynglŷn â'r gweithdrefnau.

Gan ei fod wedi cyflawni pedair trosedd goryrru mewn pedwar mis, nid oedd y pwyllgor yn fodlon bod DJM yn gweithredu'n groes i'w gymeriad ac y byddai'n peri perygl i ddiogelwch y cyhoedd sy'n teithio. Nododd y pwyllgor fod yr Ynadon wedi ystyried amgylchiadau personol DJM pan benderfynwyd peidio â thynnu ei drwydded oddi arno wedi iddo gronni 12 o bwyntiau cosb, ond ni allai'r pwyllgor ystyried hyn wrth benderfynu a oedd yn addas i feddu ar drwydded.

## 85 DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847 - DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - CAIS AM DRWYDDED YRRU CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - CTH

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu y manylion cefndir o ran achos CTH ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Amlinellodd CTH, ar y cyd â Mr Warren, Cyfreithiwr, amgylchiadau'r ardystiadau/collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Darllenodd y Cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r pwyllgor eirdaon yn cefnogi cais CTH a thystysgrif a gyflwynwyd gan Mr Warren.

**PENDERFYNWYD GWRTHOD** cais CTH am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat **o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.**

**Rheswm dros y penderfyniad**

Nid oedd y pwyllgor yn fodlon bod CTH yn berson addas a phriodol gan mai 16 mis yn unig oedd wedi mynd heibio ers i'w drwydded gael ei hadnewyddu ac roedd y pwyllgor o'r farn na chafwyd unrhyw newid sylweddol ers 2016. Methodd CTH ddatgelu natur y gollfarn a gyflawnwyd ym mis Mawrth 2015 a arweiniodd at y drosedd gyfansymio ddiwethaf. Gan na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth gerbron y pwyllgor o ran natur y drosedd ddiwethaf a ph'un a oedd yn drosedd fach neu fawr, ni allai'r pwyllgor ystyried pa arweiniad a ddylid ei ddilyn er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd sy'n teithio.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.46 am

**CADEIRYDD**